# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod Anghysbell o Bell a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, S.M. Hanks a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I.R. Buckley ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 221 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 222 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton, K.P. Mahoney a S.D. Perkes.

## 223 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

## 224 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 225 DIWEDDARIAD AR Y PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (PW) –

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn amlinellu bod y Pwyllgor wedi ystyried adroddiad ar y Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad (PCAL) diwygiedig yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023 (mae Cofnod Rhif 214 yn cyfeirio at hyn) ac a oedd wedi rhoi diweddariad cynnydd ar ofynion deddfwriaethol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf LIE") ac ar ddatrysiad Llwyfan Cyfarfodydd Hybrid i'w ddefnyddio yng nghyfarfodydd y Cyngor. Argymhellwyd y PCAL drafft diwygiedig i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn

amodol ar sawl diwygiad, ac argymhelliad bod pob Pwyllgor Craffu'n cael ei gynnwys yn y PCAL drafft diwygiedig i'w gynnal ar sail hybrid a'i ddarlledu'n fyw.

Cyflwynwyd argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Cabinet ar 7 Medi 2023 (mae Cofnod Rhif C79 yn cyfeirio at hyn) gan gynnig y dylid mabwysiadu'r PCAL fel yr argymhellwyd, ond bod cyfnod prawf o chwe mis yn cael ei gynnal ar gyfer cynnal cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ar sail hybrid a'u darlledu'n fyw, ac eithrio yn achos trafod materion Rhan II. Mae hyn er mwyn caniatáu ar gyfer hyfforddiant pellach i'r Aelodau, cael gwybod am y lefel o adnoddau sydd eu hangen i gefnogi cyfarfodydd hybrid ac asesu'r ffigurau gwylio byw cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. Cymeradwywyd y PCAL diwygiedig wedyn gan y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2023 i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Cafodd adroddiad diweddariad cynnydd ar y datrysiad hybrid ei ystyried gan y Gwasanaethau Democrataidd ar 17 Tachwedd 2023 mewn perthynas â gweithredu'r llwyfan Easy Conference (EasyConf) Connect, hyfforddiant a chymorth i'r Aelodau, yn ogystal â gwaith a oedd ei angen yn Siambr y Cyngor i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd amrywiol o wahanol gapasiti, ac yn dilyn hynny argymhellodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Cabinet mai dodrefn a chynllun Dewis F oedd yr opsiwn a ffafriwyd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus hybrid. Cytunwyd ar yr opsiwn hwn wedyn gan y Cabinet ar 30 Tachwedd 2023.

O ran darparwr presennol y Cyngor o system hybrid ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, sefydlwyd Tîm Prosiect Gweithredu Hybrid (TPGH) yn cynnwys swyddogion y Cyngor gyda chyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal i symud ymlaen y gwaith o weithredu'r datrysiad hybrid i'w ddefnyddio yng nghyfarfodydd y Cyngor. Gofynnwyd i ddarparwr y datrysiad hybrid hefyd fynychu'r cyfarfodydd hynny ar sail ad hoc pan fo angen i gynnal llinellau cyfathrebu agored a rheolaidd ac i fonitro perfformiad. Roedd y cynnydd a wnaed hyd yma a'r penderfyniadau allweddol y bu'n rhaid eu gwneud fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad. Argymhellodd yr adroddiad i'r Pwyllgor fod y Cyngor yn parhau â'i gontract gyda VP-AV Limited ar sail 1+1+1 flwyddyn.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai problemau gyda'r system a wynebwyd mewn cyfarfod Cynllunio ym mis Mawrth 2024, yn y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin ac yn y Cyngor Llawn ar 15 Gorffennaf. Mewn ymateb dywedodd y swyddog fod problemau cysylltiad wedi codi ym mis Mawrth gyda rhai Aelodau yn methu â chael mynediad i'r cyfarfod a oedd yn ceisio mynychu o bell mewn rhannau eraill o'r wlad. Roedd problem fewnol gyda chysylltiadau hefyd wedi digwydd a oedd bellach wedi'i chywiro.

O ran y Pwyllgor Safonau, roedd Cadeirydd y Pwyllgor wedi gofyn am ddefnyddio'r swyddogaeth fosaig yn y system er mwyn gallu gweld mwy o Aelodau'r Pwyllgor ar unrhyw un adeg ar y sgrin. Yn anffodus, nid oedd yn ymddangos bod y swyddogaeth hon yn gweithio ac roedd y broblem hon wedi'i huwchgyfeirio i VP-AV, darparwr y system ac MVI, cyflenwr y feddalwedd. Roedd yn fater o ddewis cael mwy nag un person ar y sgrin ar unrhyw un adeg, tra bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n siarad gael ei weld a'i glywed. Nid oedd rhai hawliau caniatâd yn y system wedi'u dyrannu i rai Aelodau chwaith ond roedd hyn wedi'i gywiro ers hynny.

O ran y Cyngor Llawn ar 15 Gorffennaf, sefydlwyd ers hynny bod gan un neu ddau Aelod broblemau cysylltu â'r rhyngrwyd gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn cael gwybod yn dilyn y cyfarfod bod y rhain wedi bod yn gysylltiedig â'u cysylltiadau band eang cartref.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll nad oedd yn barod i gefnogi Argymhelliad (3) o fewn yr adroddiad bod Pwyllgorau Craffu wrth symud ymlaen yn cael eu cynnal o bell yn unig ac roedd o'r farn bod angen adnoddau fel y gellid cynnal Pwyllgorau Craffu ar sail hybrid.

Dywedodd y Cynghorwyr Protheroe a Thomas, er eu bod yn cydnabod bod problemau wedi bod yn y gorffennol wrth sefydlu'r system, ei bod yn bwysig symud ymlaen.

Gofynnodd y Cynghorydd Hanks a oedd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r gyfraith mewn perthynas â darparu cyfarfodydd hybrid ac o bell gyda'r swyddog yn cadarnhau bod hyn yn wir a bod y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion gan ei fod yn ffrydio'n fyw ei holl gyfarfodydd, ac eithrio ar gyfer y materion hynny o natur gyfrinachol. Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol yn mynnu bod gan Gynghorau bolisi ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, o bell a hybrid. Dywedodd y swyddog, fodd bynnag, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi rhoi gwybod am ei bwriad i gynnal adolygiad o'i Chanllawiau Statudol ac Anstatudol ar Gyfarfodydd Aml-leoliad gyda chais i swyddogion yr Awdurdodau Lleol fod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod materion o'r fath. Byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad trafodaethau o'r fath maes o law.

Gofynnodd y Cynghorydd Hanks hefyd a oedd delweddau pellach y gellid eu gosod ar sgriniau fel cefndiroedd ar gael, a dywedwyd wrtho fod mwy o ddelweddau yn y system er gofynnwyd i'r Aelodau ddewis y cydraniad isel ar y system i liniaru unrhyw broblemau posibl gyda chyflymder band eang.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet am gyfnod prawf o chwe mis i gynnal cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu ar sail hybrid, roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am bresenoldeb Aelodau Etholedig ac aelodau o'r cyhoedd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn Siambr y Cyngor yn ystod y cyfnod o chwe mis. Oherwydd y nifer cyfyngedig o bobl a oedd yn bresennol a gofnodwyd o fewn y chwe mis, goblygiadau adnoddau gan gynnwys costau a chapasiti staffio, argymhellwyd felly cynnal cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn y dyfodol o bell yn unig oni bai bod mater o ddiddordeb Sir gyfan wedi'i bennu gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr.

Soniodd y Cadeirydd am siom ei Grŵp na ddyrannwyd presenoldeb yr Aelodau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol yng nghyfarfodydd y Cyngor oherwydd capasiti cyfyngedig yn y Siambr, a phe na bai rhai pleidiau yn mynychu, byddai eu seddau'n wag ar gyfer y cyfarfod, a oedd yn ei farn ef yn annheg os oedd Aelodau eraill yn dymuno bod yn bresennol. Yn dilyn ymholiad pellach gan y Cadeirydd o ran defnyddwyr ar-lein yn gallu clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn lle'r cyfieithiad

Saesneg, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Gwasanaethau Democrataidd yn ymchwilio i hyn ar hyn o bryd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, mynegodd y Cynghorwyr Carroll a'r Cadeirydd eu siom ynghylch yr argymhelliad arfaethedig i ymgymryd â chyfarfodydd Pwyllgorau Craffu o bell ac er eu bod yn cydnabod y materion adnoddau a oedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid, roeddent o'r farn ei bod yn bwysig bod cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn parhau i gael eu cynnal ar sail hybrid ac roeddent yn dymuno i'w siom gael ei adlewyrchu yn y cofnodion, gan ddatgan na fyddent yn cefnogi Argymhelliad (3).

Ar ôl i’r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell i'r Cabinet ei fod yn parhau â'r contract gyda VP-AV Limited ar sail 1 + 1 + 1 flwyddyn er mwyn cynnal cyfarfodydd o Bell a Hybrid y Cyngor ar y llwyfan meddalwedd EasyConf.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, i barhau â'r contract gyda VP-AV Limited ar sail 1 + 1 + 1 flwyddyn o 21 Awst 2024.

(3) BOD holl gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn cael eu cynnal o bell yn unig oni bai bod mater o ddiddordeb Sir gyfan wedi'i bennu gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar y cyd â'r Prif Weithredwr a bod PCAL cyfredol y Cyngor yn y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

(4) BOD y PCAL yn cael ei ddiwygio i ddweud y gellir cynnal Cyfarfod Blynyddol Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar sail hybrid (a/neu yn bersonol) yn amodol ar gytundeb Cadeirydd y Pwyllgor.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet gan ystyried y monitro cadarn a wnaed a sicrhau bod gan y Cyngor ddatrysiad llwyfan cyfarfodydd hybrid ar waith ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor.

(2) Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymrwymo i'r contract gyda VP-AV a sicrhau bod dirprwyaethau priodol ar waith i weithredu'r prosesau caffael a chytundebol.

(3) Wedi ystyried goblygiadau adnoddau i'r Cyngor a'r wybodaeth ystadegol a gasglwyd yn ystod y cyfnod prawf fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.2 ac Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) Galluogi, os bernir yn briodol, holl Aelodau Awdurdod Lleol Cyd-bwyllgor y GRhR i gyfarfod ar sail hybrid (yn bersonol) o leiaf unwaith y flwyddyn.